YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

"DOS I'TH YSTAFELL"
PWERAU
RHAI O HELYNTION HEN BREGETHWR A'I GYFOEDION
"Y DEFFROAD"
PRIODASAU
MARWGOFION
NODION YR EGLWYSI



Cyf. XXXVII

Mawrth 1937

Rhif 3

YR YMOFYNNYDD

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. L. Jones, 38, Monthermer Road, Cathays, Cardiff.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr,—J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

MYNNWCH GOPI O LYFR NEWYDD

SARNICOL

'Blodau Drain Duon'

SYDD YN AWR YN EI AIL ARGRAFFIAD

Pris 1s. (Drwy'r Post, 1s. 2c.)

Anfoner i

SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

Cyhoeddwyd yr Argraffiad Cyntaf ychydig cyn Nadolig.
Y mae'r Ail Argraffiad yn awr yn barod.

CERDDI DIGRI

A RHAI PETHAU ERAILL

Gan IDWAL JONES.

Yn cynnwys iimrigau, braslun o ffarsiau byrion, a'r cerddi ac adroddiadau a ganlyn—*Un Dyn Bach ar ôl, Eistedd ar ben Llidiard, Ie wir! Twt, twt! Swot, Siani, Marged, Leisa, Caru Mari, Profiadau Hyfryd, Profiadau Diflas, Ymadawiad Neli, Diniweidrwydd Dyn, etc.*

Anfonwch at y Cyhoeddwyr:

J. D. LEWIS A'I FEIBION, GWASG GOMER, LLANDYSUL

Pris 2s., Drwy'r Post, 2s. 3c.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

Llywydd—
MR. JOHN HOPKIN, TREBANOS.

CYNHELIR

CYFARFODYDD Y PASC

Y GYMDEITHAS UCHOD YN

Hen Dy Cwrdd . .
Cefncoed y Cymer

— AR —

Mercher ac Iau, Ebrill 14 a 15, 1937

Trefn y Cyfarfodydd—

NOS FERCHER am 7 o'r gloch pregethir gan y Parch. E. GWILYM EVANS, B.A. a'r Parch. S. E. BOWEN.

BORE IAU am 11 o'r gloch, PWYLLGOR Y GYMDEITHAS.

PRYNHAWN IAU am 2.30 o'r gloch pregethir gan y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D. a'r Parch. LEWIS WILLIAMS.

NOS IAU am 6 o'r gloch pregethir gan y Parch. T. O. WILLIAMS, M.A. a'r Parch. E. O. JENKINS.

D.S.—Os am lety goheber a'r—
Parch. J. Marles Thomas, 52, Brynheulog Street, Penydarren, Merthyr.

RHAGLEN Y PWYLLGOR—

1.—Darllen Cofnodion.
2.—Gair gan y Trysorydd.
3.—Beth am YR YMOFYNNYDD ?
4.—Unrhyw fater arall.

J. MARLES THOMAS.

J. D. Lewis a'i Feibion, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

Digitized by the Internet Archive
in 2025

https://archive.org/details/yr-ymofynnydd_1937-03_37_3

YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd : Y Parch. T. L. JONES

CYFROL XXXVII. MAWRTH, 1937 RHIF 3.

" DOS I'TH YSTAFELL—."

" Gwyn eu byd y pur o galon canys hwy a welant Dduw."

* * *

MAE Arian fel dom ; nid yw o fawr ddaioni oni chaiff ei wasgar.—BACON.

* * *

NI ddaeth Iesu i ddysgu dyn i fyw yn well, ond i sylweddoli ei hunan gywir.—MARTINEAU.

* * *

FE elli di a minnau, wrth lafurio dros y ddaear, lafurio dros y nefoedd. Gall ein gwaith beunyddiol fod yn ysgol Jacob yn cyrraedd yn nes at Dduw.—THEODORE PARKER.

* * *

MOR annheg ydym i'n hunain ! Astudiwn bopeth arall ond yr egwyddor ddwyfol mewn dyn. Mae eisiau datguddiad newydd arnom, nid o nefoedd ag uffern ond o'r ysbryd sydd y tu fewn.—W. E. CHANNING.

* * *

GWN y bydd i Gristionogaeth fyw canys y mae yn seiliedig ar egwyddorion y Natur ddynol. Etyb anghenion dyfnaf dyn—anghenion ardderchocaf dyn. Nid wyf yn dweud y gwna Cristionogaeth fel ei dëellir yn fynych fyw am byth. Credaf na fydd—Gobeithiaf na fydd. Ni themtia bydoedd fi i blygu fy Neall i gredoau dynion am Gristionogaeth.—W. E. CHANNING.

* * *

PAID ofni gweddio : mae gweddi o werth. Gweddia mewn gobaith os y medru—ond beth bynnag gweddia. Er i obaith ddiflannu gweddia yn y tywyllwch os nad oes goleuni. Beth bynnag da y gelli ddymuno gofyn i Dduw—er efallai na elli obeithio ei gael. Gweddia am berffeithrwydd er i'r byd a'i bethau rwystro d'ysbryd i'w sylweddoli ; Gweddia ; Os daw i ti yr ymdeimlad nad " da " yw Gweddi, gweddia ar i Dduw ymlid ymaith yr ymdeimlad.—HARTLEY COLERIDGE.

Pwerau.

YSTORMUS ac anhyblyg yw'r amseroedd ymhob cyfeiriad—dan y lluwch, dan y ffrae mewn etholiad, a than ofn a gorthrwm a beichiau trymion paratoadau rhyfel ymhob gwlad yng nghred.

Ystormus ac anhyblyg yw'r sŵn a geir yn y gair PWERAU. Y mae rhywbeth dieithr ac ysgubol ynddo—rhywbeth heb lonyddu a thawelu fel ag a geir yn y gair Cymraeg " GALLUOEDD ", a dyna paham y dewisais y gair Pwerau, ac er bod yn y ffashwn. Sŵn pwerau yn gwrthdaro a glywir heddiw ymhobman, a minnau fel Paul gynt yn teimlo nad ym yn brwydro â chig a gwaed ond â " thywysogaethau ".

Pe cawn broffwydo, credaf ein bod yngafael pwerau yr adwaith, a'u bod wedi ymfyddino ar bum cyfandir er ceisio cadw dyn mewn cadwyni ennyd eto. Onid yw gwerin i ddwyn ei chyffion am ganrifoedd eto, y mae'n bryd i ni ddeffro gan gerdded yn ein nerth at y wawr ac at y dydd. Nid yn yr Eidal a'r Almaen y mae Hitler a Mwsolini ond lle bynnag yr ofnir i werinwr godi'i ben, ac fe'u ceir ymhob gwlad ac ardal.

* * *

Yn ystod yr wythnos ddiweddaf ni fedrai neb lai na theimlo bod yna bwerau ym myd natur heb eu ffrwyno na'u dofi. Ychydig ddyddiau'n ôl cerddwn yn y glaw ar hyd y ffordd fawr gan geisio dyfalu oed a chryfder yr hen dderi praff a chnotiog a oedd wedi herio stormydd ar hyd y blynyddoedd. Yr oeddent, chwedl yr hen bobl, yn edrych mor gryf nes medru ohonom gymryd les ar eu bywyd. Ymhen ychydig oriau rhewodd y gwlybaniaeth yn yr awyr. Ffyrnigodd y gwynt gan chwythu ei gorn mingorn mawr, ac erbyn y bore, yr oedd y ddaear yn ei gwyn a chedyrn yr allt ar eu hyd ar y llawr. Dwedir fod dwy fil o goed yn ardal Llanbedr wedi gorfod plygu pen a thalu gwrogaeth i BWERAU cudd creadigaeth Duw. Er ein holl ddyfeisiau nid oes a fedr ffrwyno'r gwynt yn ei ruthr, ac er mai ysgafn iawn y bluen eira ofnus, eto medr hithau blygu a darnio ffordd y cerddo. Soniwn ni am ein hamddiffynfeydd adeg y rhyfel ond medr natur drwy'r gawad eira gau heolydd gwlad mewn un nos.

Pwerau didostur ynt. Ni ofalant am yr hen na'r ifanc. Ni wyddom eu grym ac ni fedrwn ei ddyfalu ond drwy edrych ar y difrod. Wrth gerdded hwnt ac yma a darllain neu wrando ar y newyddion, ni theimlwn ond y straen a PHWERAU creadigaeth Duw yn ymaflyd codwm gan hau galanas a difrod.

* * *

Didostur yw pob pwer, a chredaf nad oes mwy o drugaredd mewn pwerau a ollyngir yn rhydd adeg etholiad nag ym mhwerau natur. Nid gŵr wedi chwerwi oherwydd colli mohonof. Ni bum yn ceisio'r anrhydedd ers llawer dydd bellach. Gwn drwy brofiad beth yw colli ac ennill, ond gweddiaf rhag imi golli nac ennill, oni fedraf wneud y naill fel y llall heb ddannod na dial na gwneud gelynion. Y mae yn flin gennyf am lawer ardal a rwygir am flynyddoedd gan gâs a chynnen oherwydd colli neu ennill mewn etholiad. Nid wyf yn siwr nad y collwr yw'r ennillwr bob tro, ond iddo ymladd â dwylo glân. Gwn am bobl yr wyf yn ymgomio yn gyfeillgar â hwy beunydd na ddisgwyliwn fote byth oddiwrthynt. Pe bawn yn ei disgwyl ni byddai ond yn ofer. Yr ym rywsut yng ngafael rhyw BWERAU na allwn ni mo'r help iddynt.

Y mae felly ym Mhrydain heddiw. Y mae yma ryw BWERAU grymus ar waith. Y mae Ffasgiaeth a Chomiwnistiaeth yn ysgyrnygu dannedd y naill ar y llall, ac ni wyddom yr adeg y byddant yn ymaflyd codwm. Credwn nad oes ond rhyw nifer bach o'r CRYSAU DUON yn ein gwlad a llai fyth o Gomiwnistiaid. Nid y niferoedd y sydd yn bwysig ond y tywysogaethau—y pwerau sydd yn gorwedd yn enaid cenedl. ac y mae'r PWERAU hyn yma fel yn holl wledydd cred heddiw. Medrwn ni gysuro ein hunain drwy gredu y gallwn goncro yn nerth arfau a thrwy ychwanegu beichiau anhygoel ar y wlad, ond cyn concro bydd raid i ni newid calon a cherdded nid yn ôl traed Hitler na Mwsolini ond yn ôl traed Iesu a gerddodd i'r groes gan ddweyd, " Gwyn eu byd y tangnefeddwyr ".

* * *

Ni wn i fawr am Ysbaen, ond nid oes gornel o Gymru na ŵyr ei hing yn ei dydd blin. Y mae'r parlys wedi gafael ynddi ers llawer dydd. Gynt nid oedd yr hen feddygon yn credu mewn dim fel *gwaedu dyn*. Dwn i ddim a ydyw y PWERAU yn benderfynol o WAEDU Sbaen, er iddi ddihuno o'i thrwmgwsg a cherdded y llwybrau igamogam a garw at ryddid a blaenfynediad. Trist o leiaf yw darllain hanes cenedl yn gwaedu i farwolaeth. Tristach fyth ydyw gwybod hanes y genedl a fu gynt yn genedl fawr. Y mae'r tir ac addysg a phopeth bron yn nwylo'r eglwys, ac ofnadwy yw gwybod na fedr un o bob dau ddarllain nac ysgrifennu. Cyhuddiad difrifol yn erbyn Eglwys Dduw yw ei bod yn cadw'r genedl mewn tywyllwch rhag iddi agor ei llygaid a darllain Gair Duw a cherdded rhagddi gan amau shiboleth a defod a seremoni eglwys. Nid oes a fynno y *trimming* ag efengyl syml Mab y Saer.

Y mae'r tir yn nwylo landlordiaid ffiwdal yr oesoedd canol a'r landlord mwyaf yw'r eglwys. Bu yr un peth yn ein blino ninnau slawer dydd cyn pasio Deddf Y Llawfarw.

Pan ddaeth awel oer Ffasgiaeth ac adwaith drwy'r wlad nid oedd iddynt ond gwreiddio ynghalon y rhai a oedd ganddynt

fwyaf i golli. Pe doi gwerin i lywodraethu fe unionid y cam o adael tir y wlad yn llawfarw landlord ac eglwys, a dyma'r rhai a oedd yn fodlon gollwng rhyfel cartrefol ar wyllt drwy y wlad, a thaflu Ewrop a'r byd i afael PWERAU didostur ofn a rhyfel.

I mi nid yw ond cais i rwystro datblygiad cenedl ond ni rwystrir mohono ond am dro byr. Fe wel y werin ddall cyn bo hir nas defnyddir ond i ddwyn elw i'r pwerau a fynn ei chadw dan draed. Un o bob deuddeg yn y wlad yn llafurwyr ar y tir, yn ennill o swllt a naw i driswllt y dydd, a'r ffermwr yn cadw'n ôl arnynt am fwyd a threth, a hwythau allan o waith—un neu ddau ddiwrnod o bob tri heb ddole.

Nid yw'n rhyfedd fod y werin yn troi ar yr eglwys y sydd wedi'i chaethiwo drwy'r canrifoedd gan ei chadw yn y tywyllwch a heb dir. Hwyrach y dwed rhywun nad oes a fynnont hwy ag Ysbaen. Digon gwir. Ni byddwn innau yn gofidio cymaint onibai fy mod yn ofni fod yr un PWERAU yn ymfyddino yma ag yn Ysbaen. Ni fedr culfor Dofer gau allan ddylanwadau'r cyfandir o Brydain, a chredaf yn gydwybodol y medrwn enwi cystal Ffasgiaid ym Mhrydain ag yn Ysbaen neu'r Eidal neu'r Almaen. Nid plaid boliticaidd mo Ffasgiaeth ond twymyn, ac un wlad yn ei chael hi'n ysgawnach na'r llall dyna i gyd. Nid yw llawer o'r paratoi a'r anesmwythyd ond symptom ein bod yng ngafael y dwymyn, a Duw yn unig ŵyr am ddylanwad y PWERAU ar genedl ac ar ddynoliaeth.

* * *

Un gair arall. Fe ŵyr y mwyafrif o'r darllenwyr nad y Golygydd y sydd wrth y llyw, ond ysbryd mwy aflonydd ac ystormus o lawer iawn. Ni cheisiaf i ond llanw'r YMOFYNNYDD am dro.

N. a N.

Y TROTHWY.

NID am fo'r Ethiop wedi colli'i wlad
A'i ryddid ef ymysg y pethau fu,
A llais gwareiddiad dan sarhad
Yn nuwch ymdrech i wareiddio'r Du.
Nid am fod llongau rhyfel yn ein pyrth
A'r milwr wrthi'n mesur hyd ei ddydd ;
Oes peiriant yn pentyrru gwyrth ar wyrth
A nerth y nwy yn rhoi i'r Unben ffydd.
Cyn hir darfua sio'r beltiau hyn
Troir heddiw'n ddoe, a ddoe'n orffennol pell ;
Nid am y credaf weld troi Du yn Wyn
Y gwelaf groesi dyn dros drothwy'r Gwell,
Ond am fod rhai yn clywed Llais o hyd,—
" Myfi yw Gobaith a Goleuni'r byd."

Tregroes. D.J.D.

Rhai o Helyntion Hen Bregethwr a'i Gyfoedion.

IX.

Cyfeillion.

Er gwaethaf gwahaniaethau amlwg ar bynciau diwinyddol a gwleidyddol fe ddatblygodd yna gryn gynhesrwydd personol rhwng fy nhad â rhai o eglwyswyr amlycaf Llanbedr. Gellir yma adrodd dau hanesyn.

Yn 1902 bu ymrafael mawr ynghylch Mesur Addysg Mr. Balfour ac fe aeth yn lecsiwn rhwng y Prifathro Bebb, Coleg Dewi Sant, a 'nhad am le ar y Cyngor Sir. Dyma, meddid, a ddywedodd un o brif eglwyswyr y dref a cheidwadwr gwresog ar yr achlysur—"*If I remain at Lampeter for the election I must vote for Principal Bebb, but I cannot vote against Mr. Cribin Jones and so I am off for the day.*" Gwir neu anwir y stori gwn ei bod yn mynegi'r teimladau da a fynwesai'r dyn hwn, canys fe'u hamlygwyd ar lawer amgylchiad wedi hynny.

Teimlaf y dylid cofnodi haelioni mawr ac anghyhoedd Mr. Tom Lloyd, cyfreithiwr, eglwyswr a cheidwadwr. Tad Mr. Reggie Lloyd, cynfaer y dre, oedd Mr. Tom Lloyd, ei hun yn faer, ac yn foneddwr i'r carn. Dioddefodd gryn wendid corff a sylweddolodd ddioddefaint y tlawd mewn afiechyd. Yr oedd meddyginiaeth y Dr. Alabone at y ddarfodedigaeth bryd hwnnw ar brawf eithr yr oedd yn rhy ddrud i'r cyffredin i'w phwrcasu. Costiai ryw gini'r botel, ond er hynny gwn fod Mr. Lloyd yn ei rhannu'n rhad i ddioddefwyr. Gwn hefyd iddo am gyfnod amser y Nadolig roddi'n ddienw bunt i 'nhad i'w rhannu rhwng tlodion ei gynulleidfa a bu rhaid i'r ysgrifennydd droeon fyned a chwech i un a swllt i'r llall. O'r llonder a lewyrchai yn wynebau'r anghennus a'u caffai—moddion digon o fara i'r teulu am wythnos pan oedd pris y dorth yn dair ceiniog. Gofynnid pwy oedd y gŵr bonheddig caredig, ond ofer fu'r ymholi ac ni fynegwyd ei enw i neb hyd ei farw.

Rhai Cyfoeswyr yn y Weinidogaeth.

Yr oedd y cyfnod o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg y bu fy nhad byw ynddo yn un terfysglyd iawn ym myd crefydd a diwinyddiaeth yng nghanolbarth Ceredigion. Bu llawer o ddadlau ac ysgrifennu a chynnydd hefyd mewn dwyn daliadau diwinyddol i gytgord mwy a rheswm a gwybodaeth ddiweddar. Yn ystod yr un amser—adeg o ddwyster ymchwil a barn—gwisgodd Undodiaeth Cymru wedd newydd ac, fel y gellid disgwyl, magodd anhawsterau ac erledigaeth gewri o bregethwyr. Wele rai o honynt—

[1] *Thomas Griffiths* (*Tau Gimel*) (*darlun*). Ni ellir cael gwell disgrifiad ohono nag eiddo'r Parch. T. O. Williams, M.A. (gwel. *Hanes Cynulleidfaoedd Undodaidd Sir Aberteifi*, tud. 14)—" Y pregethwr derbyniol, y cofiannydd medrus, y golygydd cyrhaeddbell, yr emynnydd syml ond â rhyw ysbryd aflonydd afradlon yn ei ysu ".

Gellid meddwl nad oedd dawn fawr ynddo i drefnu ei amgylchiadau tymhorol. Awgrymir hynny efallai gan y cronicl amdano yn cael dillad gan eglwys Caeronnen yn hytrach nag arian i'w prynu. Lletyodd am gyfnod dan gronglwyd fy mamgu ac felly cafodd fy nhad fantais i'w adnabod. Ni feddai ac ni dderbyniai ond ychydig o bethau'r byd hwn ac ni ddeuai i'r tŷ â nemor i ddim ond ambell i bwys o ymenyn neu nwydd tebyg a gaffai pan ymwelai ag ambell i ffermwr caredig yn yr ardal.

[2] *Thomas Thomas, Pantydefaid a Chapelygroes* (*darlun*). Cyfeiriwyd ato eisoes fel ysgolfeistr hyglod. Cofia llawer sydd yn fyw amdano'n dda. Yr oedd yn ddyn lluniaidd, llathraidd ac yn benwyn hollol er pan oedd yn bur ifanc. Gwisgai hefyd yn drwsiadus â'i deithi oll yn gyfryw ag i argraffu'r sawl a'i gwelai. Yr oedd yn bregethwr pwyllog, cryf ac ystyrgar iawn. Meddai'r ddawn o ddewis pynciau a afaelai yn y dychymyg, megis, " Crefydd yn ei Dillad Gwaith " ac " A oedd Iesu Grist yn Gristion ? " Tynnai testunau o'r fath y tyrfaoeddac ni d oedd perygl eu siomi. Yn fwy na'r cwbl yr oedd T.T., fel y galwai ei gyfeillion ef, yn ddyn hael ei fryd : yr oedd yn fawr ei letygarwch a than ei gronglwyd ceid croeso mawr ganddo ef a'i briod hawddgar. Cofiaf ei fod ar un adeg yn rhoddi punt i bob myfyriwr Undodaidd pan gychwynnai ei yrfa yng Nghaerfyrddin. Clywais fy nhad fwy nag unwaith yn datgan ei farn nad âi llawer o gyflog Mr. Thomas yng Nghapelygroes dros Fanc Llanwenog*. Yr oedd yn un direidus iawn ac ni foddhâi dim ef yn fwy na *practical joke* dda ar gyfaill : fe ysai am ddifyrrwch.

[3] *Rees Jenkin Jones, M.A., Aberdâr* (*darlun*). Yr oedd Mr. Jones yn ysgolhaig gwych ac yn hanesydd y gellid dibynnu arno, fel y gellid casglu oddiwrth ei gyfeillgarwch cynnes ag un o haneswyr enwocaf yr enwad, sef, y Prifathro Alexander Gordon, Manceinion. Bu'n ysgolfeistr yn hir ac yr oedd " Ysgol Jones " yn adnabyddus iawn yn Aberdâr a'r cylchoedd. Ysgrifennai lawer i'r Cylchgronau Cymraeg, fel *Y Genhinen* a'r YMOFYNNYDD, ac ysgrifennodd hefyd i'r *Dictionary of National Biography*. Tipyn yn gwta oedd ei ddull o lefaru. Gwnai ystôr fawr ei adnoddau ef yn bregethwr derbyniol a diddorol iawn ar achlysuron arbennig ac yr oedd yn un o gedyrn ei enwad yn ei ddydd.

---

*Fe ŵyr y cyfarwydd fod Banc Llanwenog yn sefyll rhwng Capely-groes a chartref Mr. Thomas.

[4] *David Evans, B.A., Maesymeillion (darlun).* Bu'n weinidog Caeronnen am ugain mlynedd. Yr oedd wedi marw cyn fy mod yn ddigon hen i'w gofio. Felly ni wn am dano ond a ddarllenais. Drwy garedigrwydd Miss Evans, Maesmeillion, Llanybydder daeth i'm llaw yn ddiweddar ysgrif yn ardystio derbyn Mr. Evans i'r Weinidogaeth Gristionogol. Dyma fel y darllenai.—

" Llwynrhydowen May 8th 1832

This is to certify that the Revd. David Evans has been set apart to the christian ministry in the presence of and with the approbation of us.

Timothy Davies of Evesham
Arthur Williams Lampeter
William Rees Llynole
John Jeremy Caeronnen
John Davies Llwynrhydowen
Thomas Griffiths Ciliau
Evan Lewis Cilgwyn "

Gwelais hefyd y galwadau a dderbyniodd Mr. Evans—oherwydd ymddiswyddiad Mr. William Rees (uchod)—i fod yn gydweinidog Penrhiw ac Alltyblaca â Mr. John Davies (uchod). A ni ofynna dyddiad y dystysgrif am eglurhad ar y dyddiadau a roi'r i ddechreuad gweinidogaeth Mr. Evans yn y Llwyn ac Alltyblaca? Nid oedd y galwadau wedi eu dyddio.

[5] *John Davies, Alltyblaca.* (Gwel. *darlun* gyda Rhifyn Awst 1936). Pregethwr poblogaidd iawn yn y cylch Undodaidd a thu allan iddo. Ystyrid ef yn weddiwr diail. Yr oedd yn barablwr da a chanddo lais digon cryf i foddi cynulleidfa o gantorion. Yr oedd galw mawr amdano mewn angladdau, ac yntau wedi ei fendithio â chorff cadarn cerddai filltiroedd i wasanaethu. Yr oedd ganddo gerddediad nodweddiadol ag un fraich iddo yn gyffredin ar ei gefn. Yr oedd hefyd yn ŵr cofus iawn a chlywais y gallasai ddarllen pregeth Saesneg nos Sadwrn a'i phregethu'n Gymraeg forc Sul. Yn ei ddiwinyddiaeth yr oedd dipyn yn fwy hen ffasiwn na rhai o'i frodyr ond credaf iddo frasgamu llawer yn ei flynyddoedd olaf.

[6] *William Thomas, M.A. (Gwilym Marles) (darlun).* Un o bregethwyr mwyaf athrylithgar yr enwad yng Nghymru ac yn *up-to-date* iawn yn ei olygiadau. Yr oedd yn llenor da a chyfansoddodd amryw o emynau a genir o hyd. Efallai mai un o'r mwyaf adnabyddus ydyw ei gyfieithad o Tennyson—

" Fy hyder yw mai rhywfodd da
Fydd diwedd pob daearol foes,
Pob poen a phob ewyllys groes,
Amheuaeth a phob dynol bla."

Gŵyr pawb am y troad allan o'r Llwyn ac nid ocs cisiau ailadrodd. Gallai Gwilym Marles ddweud pethau llym a phert iawn ar adegau. Sul neu ddau ar ôl y troad allan sylwodd ar ei bregeth—" Y mae nhw wedi dwyn y ganhwyllbren oddiarnom ond gyda ni y mae'r gannwyll ".

Bu gohebiaeth reolaidd rhyngddo â'r Parch. R. J. Jones uchod.

[7] *William Rees, Rhydygwin.* Gŵr hynaws a thawel. Cofiaf amdano yn y pulpud ond yr oeddwn yn rhy ifanc i'w bregethu i argraffu fy meddwl. Ni chofiaf ond am un hynodrwydd ynddo, sef, ei fod yn arfer a seinio Iesu Grist fel " Iesu Grest ".

[8] *William James, B.A., Llandysul.* (Gwel. *darlun* gyda rhifyn Awst 1936). Un o ddisgyblion y Dr. James Martineau ag argraff ddwfn ei Athro arno. Yr oedd yn ŵr coeth, darllengar a chanddo bersonoliaeth amlwg. Heblaw bod yn ysgrifennwr da a pharod yr oedd yn dywysog yn y pulpud ac yn flaenfynedol iawn ei olygiadau. Ni chlywais neb erioed yn rhoddi emyn allan gyda mwy o arddeliad. Gresyn i'w iechyd ei orfodi i ymneilltuo o'r weinidogaeth yn fore.

[9] *J. Hathren Davies, Cefncoedcymer* (*darlun*). Pregethwr, golygydd ac ysgolfeistr. Dyn parchus iawn yn y Cefn ac yn bregethwr derbyniol a wasanaethodd ei eglwys a'i ardal yn rhagorol. Aeth i'r weinidogaeth am orfod torri ymaith ei law ar ôl damwain a'i anghymwysodd i ddilyn ei orchwyl. Nid oedd cyffuriau cwsg yn gyffredin bryd hwnnw a chlywais i'r meddyg dorri ymaith y llaw heb ddefnyddio *anaesthetic.* Cafodd law osod a gwisgai faneg ddu am dani bob amser.

Nid yn aml y ceir rheng o bregethwyr mor rhagorol a rhain. Sylwer bod nifer ohonynt yn raddedigion pan oedd graddau yn brin.

Rhai Arferion Coll.

Flynyddoedd yn ôl yr oedd gan yr enwad dri arferiad y caraf gofio amdanynt—

[1] *Trafod Pwnc Diwinyddol.* Yn y Cyrddau Chwarter neilltuid un cyfarfod i drafod rhyw bwnc llosg. Agorid y mater drwy i rywun ddarllen papur neu draddodi anerchiad ar y pwnc. Yna teflid y cyfarfod yn agored i bawb a fynnai i siarad arno. Yr oedd hwn yn gyfle da, i rai a ddymunai, i finio eu meddyliau, i siarad yn gyhoeddus ac i ddatblygu eu doniau dadlau. Trueni ar ryw ystyr ydyw i'r arferiad hwn fyned i golli er nad oes cymaint duedd heddiw ag a fu i drin pynciau dyrys diwinyddiaeth.

[2] *Pregethu ar Gylch.* Arferai'r hen weinidogion fyned ar " gylch " pregethu bob haf. Dewisai pob un bwnc neilltuol a thraddodai'r un bregeth ymhob capel yr ymwelai ag ef. Hysbysid y pynciau ymlaen llaw ar furiau a gwrthrychau eraill yn y gwahanol

Y Parch. DAVID EVANS, B.A.
Maesmeillion

Y Parch. WILLIAM THOMAS
(Gwilym Marles)

Y Parch. J. HATHREN DAVIES
Cefncoedcymer



Y Parch. THOMAS GRIFFITHS
(Tau Gimel)

Y Parch. THOMAS THOMAS, Pantydefaid



Y Parch. REES JENKIN JONES, M.A.,
Aberdar

ardaloedd. Rhoddai'r cynllun hwn gyfle da i weinidogion i ddarparu gwledd arbennig i'w gwrandawyr.

[3] "*Cinio'r Pregethwyr.*" Yn holl Gyfarfodydd Chwarterol yr enwad, cyn ymddangos o'r festri a geir yn awr yn gysylltiedig â phob capel, arferid darparu cinio ar wahan i'r gweinidogion yn nhŷ un o garedigion yr achos. I ni heddiw nid ymddengys hwn yn gynllun democrataidd iawn ond teimlaf mai mantais fawr iawn i weinidogion gwasgaredig oedd cyfarfod yn awr ac yn y man fel hyn i feithrin cyfeillgarwch ac i adrodd eu profiadau gweinidogaethol i'w gilydd. Nid snobyddiaeth ydyw peth fel hyn ond cynllun ymarferol buddiol i wasanaethu dibenion da.

"Y Deffroad."

(J. Seymour Rees).

Deugain mlynedd yn ôl rhedai'r "Aeres" yn gyson drwy'r haf, unwaith bob pythefnos, i borthladd Llan Grannog.

Un tro ym Medi cadwyd hi yno am fis cyfan gan storm arw. Bu hyn wrth fodd calon Dic, yr is-swyddog, ac yn grawn ar groen y capten.

Fel rheol, âi Dic o fwrdd y llong tua phump o'r gloch y prynhawn, wedi ymwisgo yn daclus yn ei ddillad gorau. Dychwelai wedyn tua deg, a hynny yn drwm dan effeithiau cwrw.

O'r herwydd, ceryddwyd ef gan y capten am wastraffu ei arian ar oferedd. Ateb parod Dic oedd—"Wel, capten, fel hyn yn gwmws. Dych chi ddim yn gwbod y cwbwl."

"Ma hynny'n bosib," atebwyd, "ond mi wn dy fod yn ffŵl".

"Pwy na sy, capten, pan fydd e dros i ben a'i gluste miwn cariad?"

Ymdawelwyd dros ennyd ar ôl clywed y gyfrinach hon. Cofiodd y capten y gair a ddywed fod clefyd serch, ar un cyfrif yn debig i'r frech goch. At yr ieuanc daw'n naturiol ac ysgafn, ond trwm ac anniben yw'r ergyd i'r hen.

Ac yr oedd Richard Dafis yng nghymdogaeth y pum mlwydd a deugain.

"O'n wir, te. A phwy yw'r ferch ifanc, Dic?"

"A gweyd y gwir yn onest, capten, nid merch ifanc yw hi."

"Felly'n wir, a—beth yw hi te?"

"Gwidw fach deidi sy'n cadw tŷ tafarn yn y pentre ma."

"Nid gwraig y 'Red Tiger'?"

"Nage, nage," ebr Dic, "nid gwraig y 'Red Tiger', ond - - - gwidw'r dyn fu'n byw yno ddiwetha."

"Tawn i byth yn ffoi o'r fan ma. Dic, wyt ti'n mentro. Wyt ti'n meddwl y byddi di'n lwcus os cei di hi?"

" O diar, bydda. Ma na dafarn bach neis, a busnes dda hefyd. Whare teg i Mrs. Morris, ma hithe'n wraig olygus, a - - - thipyn o arian wrth gefen," meddai Dic.

" Wel, does da fi ond dymuno pob lwc i ti, Dic, - - - a hithe."

" Diolch yn fowr, capten. Falle, cyn yr haf nesa y bydda i wedi rhoi'r môr hibo."

Ni chafwyd rhagor o siarad ar hynny o bryd.

Pan eisteddodd y ddau wrth y bwrdd i dê, rhoddodd Dic wahoddiad taer i'r capten ddod gydag ef i'r ' Red Tiger '. Byddai hynny yn gyfle i fwrw llygad, a ffurfio barn am y fenyw.

Tua chwech o'r gloch y noson honno, aeth Dic a'r capten yno. Cafwyd derbyniad tywysogaidd gan Mrs. Morris, a gosodwyd y ddau mewn ystafell gled o'r neilldu. Yn awr ac yn y man deuai'r wraig i roi tro amdanynt, a difyr iawn oedd ei geiriau.

Cafodd Dic bedwar gwydriaid o gwrw, a dechreuodd siarad yn rhydd a rhwydd. O'r diwedd, aeth at Mrs. Morris, a chan gydio'n dyn yn ei llaw, dywedodd—

" Drychwch ma, Mrs. Morris, rwy'n gofyn i chi 'to, - - - a odi chi'n y ngharu i nawr ? Dyw 'nheimlade i yn newid dim atoch chi. Ma nhw fel yr iachawdwriaeth - - - " yn chwyddo byth i'r lan '."

" Dyw 'nheimlade inne, Dafis," meddai, gan dynnu ei llaw yn ôl. Ymhen ychydig ychwanegodd—

" Dyna beth rhyfedd. Ar ôl i chi yfed y pedwerydd glased rych chi bob amser yn gofyn y cwestiwn na i fi."

" Wel, chi'n gweld, Mrs. Morris fach," ebr yntau, " dwy i ddim yn gyfarwydd a'r busnes Caru ma, ochodyn."

" O dyna fel ma pethe, iefe ? "

" Ie, nghariad i. Ond y tro nesa mi ofynna i chi cyn i fi godi'r latsh. Wedyn, cewch weld mod i o ddifri."

Ar hyn, aeth Mrs. Morris allan o'r ystafell, ac awgrymodd y capten y dylasai ef ddychwelyd i'r llong.

" Mi ddwa i mas 'da chi, capten, ond, cofiwch, dwy i ddim yn dod i'r ' Aeres ' nawr."

Mewn canlyniad, ymadawodd y ddau. Dringodd Dic y rhiw serth a arwain o'r pentref i'r wlad. Wedi iddo gerdded am filltir, eisteddodd wrth ymyl y ffordd. Yno, bu wrthi'n brysur yn dyfalu cynlluniau er ennill ffafr Mrs. Morris. Dyfeisiodd ymhob dull a modd nes llwyddo o'r diwedd. Gwaetha'r modd, i weithredu'r cynllun hwnnw yr oedd angen cymorth cyfaill arno.

Ar fyr, digwyddodd dyn ieuanc, ugain oed, basio. Gofynnodd i Ddic am flewyn o dybaco.

" O cewch, - - - â phleser," oedd yr ateb. Estynnwyd pecyn i'r dieithryn, a chymerodd allan ohono gan lenwi ei bibell. Aed i siarad am y pwnc hwn ac arall, ac eisteddodd y ddau wrth ymyl ei gilydd. O dipyn i beth deellodd Dic mai morwr oedd y dieith-

ryn, a'i fod mewn amgylchiadau ariannol isel. Cyn pen awr o amser tyfodd cyfeillgarwch cryf cydrhwng y ddau, a hynny am fod cymaint o bethau cyffredin yn eu bywyd.

Gwelodd Dic ei gyfle i gynorthwyo cyfaill ar lawr, ac hefyd i gyrraedd ei amcanion ei hun. Torrodd y garw yn y dull hwn - - -

" Tom, fe wedsoch, gynne fach, fod ych arian chi wedi rhedeg yn isel."

" Do, - - - ond, cofiwch, dwy i ddim yn begian."

" Na, na, rwy'n dyall pethe'n iawn," meddai Dic. " Ond, os rhowch chi help llaw i fi gyda mater bach, mi ellwch ennill punt yn hawdd."

" Shwt ? " oedd y gofyniad awchus.

" Wel, yn gynta i gyd, newch chi addo pido agor ych ceg wrth neb am y mater ? "

" Gna," meddai Tom.

" Nawr te, grondwch ma. Rywfodd ne gilydd rwy'n teimlo y galla i ymddiried yndo chi."

" Gallwch, gallwch yn itha tawel."

Tynnodd Dic ei bibell allan a llenwodd hi, yna dechreuodd lefaru yn hamddenol.

" Grondwch ar y'n stori i te. A gweyd y gwir yn onest, yr wy dros y mhen a nghluste miwn cariad a gwidw fach lân yn y pentre ma. Ma hi'n pallu a chredu y ngeire i, ond rwy am brofi unwaith ac am byth, mod i yn i charu hi'n angerddol."

" Dyna fe," ebr Tom. " Cofiwch Dic, os galla i'ch helpu, mi fydda'n barod ar unwaith, - - - ond beth sy genni i neud ? "

" Miwn chydig eire, - - - rwy am i chi fod yn lleidir gonest."

" Lleidir gonest ? Lleidir gonest ! Pwy eriod a glywodd am shwt beth, licwn i wbod ? " gofynnodd Tom mewn penbleth.

" Ma gen i gynllun," meddai Dic. " Grondwch arno fe fel hyn yn gwmws. Ma nghariad i, y widw, Mrs. Morris, yn byw miwn ty tafarn o'r enw ' Red Tiger '. Lle unig yw e. Rwy wedi gweyd wrthi hi droeon, y dyle hi gal rhyw ddyn i ofalu amdani."

" Ie, ie," ychwanegai Tom yn syn.

" Wel nawr, rwy am ladd dou dderyn ag un ergyd. Ma arna i ise profi iddi y dyle hi gal dyn i'w hamddiffyn, - - - a ma fi yw hwnnw."

" Go lew," meddai Tom yn anesmwyth.

" Ma'n dda gen i ych bod chi o'r un farn a fi," ebr Dic. " Itha reit. Cwrddwch a fi lan fan hyn, nos fory, am hanner awr wedi un-ar-ddeg. Wedyn, fe af a chi i'r ' Red Tiger '. Rhoddaf chi drw ffenest fach y gwn i amdani. Ar ôl ny, fe ewch lan i'r llofft i hela ofan ar Mrs. Morris. Y peth nesa fydd iddi sgrechen a gweiddi am help. Mi fydda inne y tu fas yn i chlwed, yna yn dod miwn, ac wedyn, yn treio'ch dala chi." Arhosodd Dic am ennyd i gael anadl cyn gofyn - - - " Odi chi'n dyall ? "

" Odw," meddai Tom, yn oeraidd.

" Chi'n gweld, fe fydd Mrs. Morris yn debig o gydio yndw i, a ngalw i wrth bob enw neis dan houl. Yn y diwedd fe fydd yn shwr o mhriodi i, gwlei," ebr Dic yn orfoleddus.

" Bydd, bydd. Wedyn, fe gewch chi'ch dou fis mel, a finne - - - fis ar fara a dŵr."

" Na, na, Tom," meddai Dic yn ofalus. " Mi ro i ddigon o gyfle i chi ddianc. Mi reda ar ych ôl chi, wrth gwrs, ond mi ofala na ddala i byth ohonoch."

" O wir, a dyna'r cawdel, iefe ? "

" Tom," ebr Dic yn ddifrifol, " odi chi'n folon rhoi'r help i fi ? "

" Wel, na, wir. Ma gormod o berigl yn y busnes i gyd - - - a hynny am ddim ond punt."

" Grondwch," meddai Dic, yn anesmwyth. " Mi ro i ddwy bunt i chi ! "

Ar ôl ystyried y mater am ychydig amser atebodd Tom—" O'r gore. Mi na i'r cyfan yn iawn am ddwybunt."

Dyna derfyn ar y fargen, ond ni roddwyd yr arian. Rheswm digonol am hynny oedd mai Cardi ydoedd Dic. Cododd yn rhy fore i hynny. Ymadawodd y ddau a'i gilydd, a chiliodd Dic yn llechwraidd i'r llong gan adael ei gyfaill i bendroni ar ochr y ffordd.

Nos trannoeth aeth Dic allan tua deg o'r gloch. Erbyn hynny yr oedd yn rhy hwyr iddo i droi i mewn at Mrs. Morris am ei gwrw. A hi'n unarddeg, yr oedd ef ar fan y cyfarfod yn disgwyl am ei gyfaill, Tom. Ymddangosodd hwnnw yn ei bryd, ac mewn hwyl i ymgymryd a'r gwaith. Aeth y ddau yn hollol dawel gyda'i gilydd i gyfeiriad y pentref. Nid oedd dyn ar y ffordd, na lleuad yn y ffurfafen. Ciliodd pawb i'w gwely ers oriau, fel na chafwyd golau mewn tŷ yn yr ardal. Dim ond un sŵn a dorrai ar dangnefedd y fro. Clywid twrw'r tonnau yn disgyn ar y traeth am bellter yng nghyfeiriad y Gogledd. Daroganai hyn lwc i'w helynt, meddai Dic yn dawel. Yn wir yr oedd popeth yn ffafriol iawn ar gyfer anturiaeth.

Cyn hir, deuwyd at y ' Red Tiger '. Wedi ysbio'n fanwl o gylch, agorodd Dic y ffenestr y soniodd amdani y noson o'r blaen. Gwthiwyd Tom i mewn drwyddi.

" Hei," ebr yntau rhwng ei ddannedd, " rhowch y ddwy bunt i fi cyn mynd gam ymhellach."

Heb ragor o siarad estynnwyd yr arian iddo.

" Mi af i allan i'r hewl nawr," meddai Dic mewn pryder, a thipyn o ofn. " Cofiwch neud iddi weiddi."

" Pidwch chi â phryderu dim am 'ny. Ma hi'n siwr o weiddi."

(*I'w barhau.*)

Priodasau.

Dydd Sadwrn, Rhag. 19, priodwyd yng Nghapel y Graig, Trebanos, HANDEL JENKINS, Rhydyfro â MARGARET BENNETT, Gellinudd. Gwasanaethwyd gan y Gweinidog a'r Parch. Idwal Jones, Rhydyfro.

Ar Ionor 30, yng Nghapel y Graig, Trebanos, DAVID MERVYN DAVIES, Clydach â BRONWEN DAVIES, Gellionnen. Gwasanaethwyd gan y Gweinidog.

Yng nghapel Pantydefaid, Chwefror 6, ym mhresenoldeb y Cofrestrydd, Mr. D. Davies, unwyd mewn glân briodas gan y Gweinidog, OWEN J. LLOYD, Gelli House, Llanybyther a SARAH MAGGIE EVANS, Fforestnewydd, Tregroes. Eiddunwn iddynt bob hapusrwydd.

Marwgofion.

Ar Ionor 5, wedi cystudd byr, bu farw DAVID JOHN REES, Glynderwen, Ynystawe, yn 61 mlwydd oed. Yr oedd Mr. Rees yn fawr ei barch drwy'r cymydogaethau, ac oherwydd ei gysylltiad â ffyrm—Messrs. John Rees & Sons, Timber Merchants, Clydach—yr oedd cylch ei gydnabod yn eang iawn. Cafwyd tystiolaeth o hynny ddydd ei angladd. Estynnir ein cydymdeimlad dyfnaf i Mrs. Rees, merch y diweddar John John a Mrs. John, Cefn Ithrim. Nodded Duw fo gyda hi a'i thri phlentyn. Claddwyd ym mynwent Coedgwilym, Trebanos. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. J. J. Roberts, Hebron a J. D. Jones, Gellionnen. Pregethwyd yng Nghapel Hebron gan Mr. Roberts, a chynorthwywyd yn y gwasanaeth gan Mr. Jones, Mr. Glyn Jones, Moriah a Mr. Lloyd, Carmel.

Bu farw ELINOR EVANS, Pentre Rhydowen, Ionor 27 yn 76 mlwydd oed. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Pantydefaid, Ionor 30. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. E. O. Jenkins ac yn y capel ac ar lan y bedd gan Weinidog yr eglwys. Roedd i'r ymadawedig barch mawr yn yr ardal fel dynes gymwynasgar a chymydogol. Gwnaeth waith mawr yn ei dydd fel fyd-wraig yn y gymdogaeth.

Chwefror 4, yn 73 oed, bu farw HANNAH THOMAS, No. 1, Llanwnen, ar ol cystudd byr ond poenus, gan adael teulu lluosog o blant mewn galar o'i cholli. Chwaer ydoedd i Mr. John Davies, Pantmoch, ger Pontshan. Claddwyd a oedd farwol o honi ym mynwent Aberduar y dydd Mawrth dilynol. Gwasanaethwyd fel y canlyn—yn y tŷ gan y Parch. E. J. Evans, ficer Silian a'r Parch. D. Evans, Cwmiago ; yn y capel gan y Parchn. Evans Bowen, Alltyplaca ; Eurig Davies, M.A., Llanbedr, a D. C. Griffiths, Aberduar ; ar lan y bedd, gan y Parch. B. Davies, ficer Llanwenog.

Chwefror 5, yn 44 oed, bu farw MARY ANNE JONES, Aeron House, Cribyn, ar ôl cystudd maith a chaled, gan adael priod a weiniodd arni'n dyner a gofalus yn ei chystudd, mam, dwy chwaer, brawd, a pherthynasau agos eraill, mewn hiraeth o'i cholli. Merch ydoedd i'r diweddar Thomas Herbert, ac Elizabeth ei briod, a arferai fyw yn Nhangaer, Cribyn. Dydd Mawrth dilynol claddwyd ei gweddillion ym mynwent Cribyn, y gweinidog (y Parch. E. G. Jones) yn gwasanaethu, gyda chynorthwy'r Parchn. E. O. Jenkins, L. Williams, Emrys Evans, ynghyd â gweinidog newydd Seion, Cwrtnewydd.

Chwefror 7, yn 85 oed, bu farw DAVID JENKINS, annwyl briod Sarah Jenkins, Glanafon, Cribyn, gan adael ei weddw mewn galar o'i golli. Mab ydoedd i'r diweddar Jenkin a Letitia Jenkins, Llechwedd-dderi, plwyf Llanwnen ; aelod, felly, o deulu lluosog o nifer yn ardaloedd Cribyn a Llanwnen. Bu yntau yn adnabyddus iawn yn ei ddydd ar gyfrif ei ddeheurwydd fel meddyg anifeiliaid ; gofynnid ei wasanaeth gan bell fel gan agos ; a bu yntau yn neilltuol barod i roddi ei wasanaeth. Fe enillodd iddo'i hun, felly, barch didwyll ardal eang, ac ymddiriedaeth drwyadl pawb a fu'n ceisio ei wasanaeth. Ymaelododd yng Nghribyn pan oedd gymharol ieuanc, a bu'n rhyfeddol o ffyddlon hyd yr analluogwyd ef gan fethiantau henaint. Heblaw ei weddw, yr oedd iddo hefyd nifer luosog o neiaint—yn ardaloedd Cribyn, Llanwnen, a Thalgarreg. Dydd Mercher dilynol hebryngwyd ei weddillion i fynwent Capelygroes, y cynhebrwng yn gyfyngedig i'r perthynasau. Darllenwyd a gweddiwyd yn y tŷ gan y Parch. E. G. Jones, traddodwyd anerchiad byr yn y capel gan y Parch. D. Evans, Cwmiago, a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins.

Chwefror 8, bu farw JOHN JONES, No. 1, Cwmanne, Pencarreg, ar ôl amryw flynyddoedd o gystudd, yn 89 oed, gan adael pedwar o blant ar ei ôl. Ym Mlaenmoelfre, ger Capelygroes, yr arferai fyw hyd ei ymneilltuad ychydig flynyddoedd yn ôl. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Capelygroes ddydd Gwener dilynol, y Parch. E. G. Jones yn gwasanaethu.

Chwefror 9, ar ôl ychydig ddyddiau o achwyn HANNAH DAVIES, gweddw y diweddar John Davies, Gwardafolog, Pontshaen, yn 82 oed. Bu farw yn Tyngrug-isaf, Llanwenog, cartref ei merch a'i mab-yng-nghyfraith, lle'r oedd wedi cartrefu am yn agos i wyth mlynedd a lle y cafodd bob gofal a thynerwch. Yr oedd yn hannu o deulu fu o'r cychwyn yn deulu pwysig gyda'r achos yng Nghapel-y-Fadfa—merch ydoedd i Deio a Betto, Gwardafolog ac mae Gwardafolog a Chapel-y-Fadfa wedi bod ynghlwm a'u gilydd am genedlaethau. Bu John Davies, Castellnewydd Emlyn, Gwilym Marles ac ereill o'r hen weinidogion yn ciniawa lawer i dro ar yr aelwyd hon. Benyw a garai'r lle oedd hithau : roedd muriau'r ddau gapel, y fynwent, a'r achos yn bethau annwyl iawn iddi. Er fod methiant a phellter ffordd wedi ei lluddias i fynychu'r gwasanaeth ers blynyddau, cofiodd am yr achos yn ffyddlawn i'r terfyn. Benyw dawel ei thymer ydoedd : benyw o ysbryd heddychol a thangnefeddus ; rywsut fe deimlem yn well ar ol bod yn ei chwmni. Gadawodd fab, merch, wyrion a llawer o berthynasau ereill i weld ei heisiau. Claddwyd y Sadwrn dilynol yng Nghapel-y-Fadfa. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. S. E. Bowen ; yn y capel gan y Parch. E. O. Jenkins, ac wrth y bedd gan y Parch. J. Marles Thomas, M.A.

Ar Chwefror 10, bu farw LLEWELYN HOWELL THOMAS, 36, Strathnairn Street, Caerdydd—gynt o'r Western Road, Pontardawe. Nid oes ond ychydig amser er pan ymsefydlodd y teulu yng Nghaerdydd. Cyrhaeddodd Mr. Thomas yr oedran teg o 77 o flynyddoedd. Er ei gaethiwo i'r tŷ ers amser maith bellach gan ddiffyg y clyw a'r cof, cydnabyddid ef fel un o'r diaconiaid mwyaf selog a gweithgar a fu'n perthyn i'r achos yn Gellionnen a'r Graig. Siaredid yn uchel amdano gan ei gydweithwyr. Yr oedd hefyd yn *Trustee* ar eiddo'r Eglwys. Claddwyd ym mynwent Gellionnen y dydd Llun canlynol. Gwasanaethwyd gan y Parchn. J. D. Jones, B.A., B.D., J. O. Jones, M.A., Bedford Roberts a Lewis Morgan. Cydymdeimlir yn ddwys â'r weddw a'r plant. Nid oes ond dwy flynedd er pan gollodd y teulu hwn ddau o'r plant o fewn mis i'w gilydd.

Hunodd yn ddisyfyd yn yr Arglwydd, Helen Jill, merch fechan Mr. a Mrs. Davies, Midland Bank, Llandysul, a hithau bron a bod yn flwydd oed, Chwef. 11. Ar ddydd yr angladd, Chwef. 13, gwasanaethwyd yn y tŷ gan Weinidog y Graig a'r Parch. D. Rhydderch, ac ar lan y bedd gan y Parch. Myfyr Evans.

" The world—our world at least—is not the same
As though the babe had never come to us."

Ar y 26ain o Chwefror bu farw ELIZABETH EVANS, Farmers' Arms, Pencader, yn 76 mlwydd oed. Daearwyd ei chorff ym mynwent Pantydefaid, Mawrth 2. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. E. Gwilym Evans a Ficer Llanfihangel-ar-Arth ac ar lan y bedd gan y cyntaf. Dynes dawel, tawedog oedd ein chwaer ymadawedig ac 'roedd wedi ennill serch llu o gyfeillion. Cydymdeimlwn yn fawr â'r teuluoedd uchod yn eu hiraeth a'u galar.

Nodion yr Eglwysi.

LLONGYFARCHIADAU.—Da oedd gyda llu o gyfeillion Miss Elin Jenkins, Blaenwaunganol, un o blant Capelygroes, glywed ei bod wedi pasio yn anrhydeddus, y Dystysgrif Golegol (College Diploma) yn y Brifysgol yn Aberystwyth. Dymunwn iddi eto bob llwyddiant ar ei gyrfa.

CAPELYGROES.—Nos Sul, Ionor 17 ar ôl y gwasanaeth, cyflwynwyd anrheg priodas i Mr. T. Alun Evans, Beilicadarn, fel un o blant yr Ysgol Sul. Da oedd gyda ni gael Mrs. Evans yn ein plith am y tro cyntaf. Cyflwynwyd yr anrheg iddo gan Mrs. Williams, yr Unity, a diolchodd Alun yn gynnes iawn i aelodau yr Ysgol Sul am eu rhodd ag a fydd yn ei goffhau o'r amser y bu yn eu plith.

CRIBYN.—Nos Fercher, Chwefror 24, talodd Cwmni Drama Graig, Llandysul, ymweliad â ni, i berfformio'r gomedi " Y Siop Newydd ". Aeth pawb adref wedi ei mwynhau. Cymerwyd y gadair gan y Parch. David Evans, Cwmiago, a diolchodd yn gynnes i'r cwmni, ar ran y gynulleidfa, am ei gwasanaeth ac am berfformiad da. Cofiodd Mr. Evans am yr achos yn Cribyn drwy roddi llwyfan (*stage*) newydd, fel rhodd i'r eglwys. Ar ran y gynulleidfa diolchodd Mr. Evan Davies, Frondeg, yn gynnes iawn i Mr. Evans am ei rodd sydd i aros.

Y PARCH. DDR. GRIFFITHS.—Bwriada Dr. Griffiths gyda chyd-syniad Gweinidogion y cylch ymweled a phregethu ymhob un o'n capeli yn Sir Aberteifi y Gwanwyn nesaf. Bydd trefn yr ymweliadau fel y canlyn : Ebrill 18, Brondeifi a Chaeronnen ; Ebrill 25, Alltyblaca, Capelybryn a Chapelycwm ; Mai 2, Capelygroes a Chribyn ; Mai 9, Ciliau a Rhydygwin ; Mai 23, Capelyfadfa a Llwynrhydowen ; Mai 30, Graig a Phantydefaid. Gan mai ar y Sul y gwneir yr ymweliadau hyn hyderwn y gwna pawb ymdrech i fod yn bresennol yn y gwasanaethau ar Sul ei ymweliad.—E. O. Jenkins.

GRAIG, TREBANOS.—Dathlwyd y Nadolig fel arfer gyda chyngerdd bywiog. Arweiniwyd gan Mr. Lewis Morgan, Clydach. Chwareuwyd tair drama, a chafwyd amryw ganeuon. Ar Ionor 2 bu deiliaid yr Ysgol Sul yn mwynhau eu Te Parti.

Ar Chwefror 3 perfformiwyd y ddrama—" Y Pair " (Zangwill)—gan Gwmni'r Maerdy yn y Neuadd Gyhoeddus, Pontardawe. Yr oedd y Cwmni'n enwog, a chafwyd ganddynt berfformiad rhagorol. Ag ystyried afiechyd yr ardal a gerwinder y tywydd cafwyd cynulliad neilltuol o dda,—tystiolaeth i ddyfalbarhad gwerthwyr y tocynnau a gweithgarwch y trefnwr, Mr. J. O. Morgan, Pontardawe. Estynnwn iddo ein llongyfarch ar ei ddyrchafu i restr cyfreithwyr yr ardal. Yr ydym yn gwerthfawrogi parodrwydd ei wasanaeth i'r gynulleidfa mewn llawer cyfeiriad.

CILIAU AERON.—Prynhawn Mercher, Mawrth 3ydd, cynhaliwyd yma y Cwrdd Eglwys Blynyddol. Daeth bron pawb perthynol i'r eglwys ynghyd. Y peth cyntaf ar raglen y cyfarfod oedd tê i bawb. Rhoddwyd y tê gan Mrs.

Davies, Foelallt, a'i merch, Mrs. Jones, A.L.C.M., Cil-llwch, Dihewyd. Diolchwyd i'r ddwy am eu caredigrwydd. Rhoddwyd ystyriaeth i amryw o faterion perthynol i'r eglwys, a datganwyd dymuniad am i'r cwrdd hwn gael ei barhau yn flynyddol. Manteisiwyd ar y cwrdd hwn i gyflwyno côd o arian i Mrs. Jones, Cil-llwch, fel rhodd briodasol ac fel arwydd o werthfawrogiad yr eglwys o'i gwasanaeth fel Organyddes y Capel am nifer fawr o flynyddau. Gan ei bod yn ferch y Foelallt, nid un segur a diwaith ydoedd, ond trefnai ei gwaith yn y fath fodd ag oedd yn ei galluogi i fod yn bresennol yn y gwasanaeth bob Sul, a chyda'r organ. Ni fu neb erioed yn caru ei heglwys a'r achos yn fwy na Mrs. Jones, ac er fod ei chartref newydd ym mhell o'r capel credwn y ceir ei gweled yn y gwasanaeth yn aml eto. Siaradwyd gan y Gweinidog a chan Mr. Evan Hughes, Dihewyd ; yr Henadur Simon Davies, Y.H., Greengrove ; a Mr. T. Elias, C.M., Parc, a dygodd pob un ohonynt dystiolaeth uchel i werth gwasanaeth Mrs. Jones fel organyddes, ac i'w ffyddlondeb i'r achos yn y lle.

RHYDYGWIN.—Nos Lun, Ionor 25 cynhaliwyd Sosial yn Festri'r Capel, a daeth nifer fawr ynghyd, mwy na llond y Festri. I ddechreu caed tê, a'r byrddau wedi eu hulio â phob math o ddanteithion, a phawb a'u gwynebau yn siriol wrth fwynhau y wledd. Ar ôl hynny cymerwyd y gadair gan y Gweinidog, yr hwn a ddywedodd fod i'r Sosial fwy nag un diben y tro hwn. Cynhelid y Sosial er mwyn tynnu pawb perthynnol i'r eglwys at ei gilydd am unwaith yn y flwyddyn, a meithrin teimlad cynnes rhwng yr aelodau a'i gilydd. Amcan arall iddo oedd cyflwyno anrheg i Mr. Evan Jones, Aldergate, fel arwydd o werthfawrogiad yr eglwys o'i wasanaeth fel Trysorydd am y cyfnod maith o ddwy flynedd a deugain, ac amcan arall iddo oedd cyflwyno anrhegion i'r plant am eu ffyddlondeb gyda'r Ysgol Sul. Awd at y gwaith o anrhegu Mr. Evan Jones. Dywedodd y Cadeirydd iddo glywed un yn dweyd na welodd lyfr cyfrifon erioed gan Mr. Jones. Mae ganddo lyfr cyfrifon, ond ceidw hwnnw er mwyn sicrhau aelodau'r eglwys fod ei gyfrifon yn gywir. Nid oes arno ei angen gan fod ei gof bob amser yn ddi-ball. Nododd y Cadeirydd amryw o gymwysderau eraill ynddo, a dywedodd mai anhawdd iawn fyddai cael un mwy cymwys i'r swydd. Yna galwodd y Cadeirydd ar Mr. David Evans, Cairo, aelod hynaf yr eglwys, i gyflwyno yr anrhegion i Mr. Jones, sef awrlais hardd a chôd o arian. Soniodd Mr. Evans am yr amser hapus yr oedd ef a Mr. Jones wedi dreulio gyda'i gilydd fel swyddogion yr eglwys, a dywedodd yr ystyriai fod Mr. Jones yn cyflawni ei waith i foddlonrwydd pawb. Yna siaradodd Mr. David Davies, Brynog. Cyfeiriodd at dymer wastad Mr. Jones. Ni welodd ef mewn tymer ansiriol pan y byddai ef ac eraill wedi anghofio dwyn eu cyfraniadau mewn pryd, a dywedodd fod hynny yn ei gwneyd yn haws i rai i ddwyn eu cyfraniadau pan wedi oedi hyd yr unfed awr ar ddeg. Wedi hynny siaradodd Mr. David Evans, Tegfan. Adgofiodd Mr. Evans ni o hanes teulu Aldergate yn y dyddiau gynt yn eu ffyddlondeb i'r achos yn Rhydygwin, a dywedodd mai da oedd gan bawb weled Mr. Evan Jones yn cadw i fyny draddodiad yr hen deulu. Adroddodd hefyd benillion wedi eu cyfansoddi ar gyfer yr amgylchiad. Yna siaradodd Mr. Jenkin S. Davies, Post Office, Felinfach, yr hwn sydd yn Arolygwr o dan y Welsh Board of Health, ac yn byw yn Llanelli. Cyfeiriodd yntau at gymwysderau Mr. Jones i'r swydd. Aeth ef â ni yn ôl i'r amser pan y gofalai ei dad, sef y diweddar David Davies, Post Office, Felinfach, a'i dadcu, sef y diweddar David Howells, Ystrad House, a D. Saunders Davies, yn awr o Dolwern, yr hwn oedd y pryd hwnnw yn ysgrifennydd yr eglwys, a Evan Jones yn gofalu am gyllid yr eglwys. Pan na fyddai y derbyniadau yn dod i fyny â'r treuliau, byddai y rhai hyn yn gwneyd y diffyg i fyny, a dywedai na wyddai neb faint oedd Mr. Evan Jones wedi roddi yn ddistaw i gyfarfod â threuliau yr eglwys. Yn ddiweddaf caed cyngerdd o adrodd a chanu, yr hyn a fwynhawyd gan bawb. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu hamrywiol gyfraniadau tuag at yr amgylchiad.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer, Llandysul.

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha)
Edited by MORTIMER ROWE, B.A. assisted by Principal H. MC LACHLAN, and DR. DOROTHY TARRANT. 1,033 pages cr. 8vo. **7/6** net (by post **8/-**). Leather bound, gilt edges, **10/6** (by post **11/-**). A book for every lover of great things in literature and life.

CHRISTIANITY AS A NEW RELIGION
By PERCY DEARMER, M.A., D.D., Canon of Westminster. Price **1/-** (by post **1/1**). (The 1935 Essex Hall Lecture). Many formal lectures still in print. Send for list.

THE ESSENTIALS OF CHRISTIANITY
By HERBERT J. ROSSINGTON, M.A., B.D. Price **1/-** (by post **1/1**). Cloth, **2/-** (by post **2/2**).

DOCTRINES THAT DIVIDE THE CHURCHES
By C. M. WRIGHT, M.A. Price **6d.** (by post **7d**).

CHRISTIAN EXPERIENCE
By G. RANDALL JONES, M.A., B.SC., B.D. This is No. 21 in the series:
RELIGION: ITS MODERN NEEDS AND PROBLEMS
Edited by RAYMOND V. HOLT, M.A., B.LITT. Twenty-one books of different titles and authors are now issued. **1/-** each (by post **1/1**).

Send for 24 page Prospectus with synopsis of the individual books.

The Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2.

OS YDYCH AM RODDI ANRHEG AM FFYDDLONDEB I'R YSGOL SUL A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

"PERLAU MOLIANT"

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.



Cecil Jones, F.B.O.A., F.S.M.C., F.I.O.

:: QUALIFIED OPHTHALMIC OPTICIAN ::

31, Great Darkgate Street

ABERYSTWYTH

TELEPHONE No. 209.